Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cyllid

National Assembly for Wales
Finance Committee

Y Gwir Anrhydeddus Alun Cairns AS

Ysgrifennydd Gwladol Cymru

26 Ebrill 2018

Annwyl Ysgrifennydd Gwladol,

Ymchwiliad i'r paratoadau ar gyfer yr hyn a fydd yn disodli ffrydiau cyllido'r UE yng Nghymru – Ymgynghoriad

Hoffai'r Pwyllgor Cyllid eich gwahodd i gyfarfod pwyllgor i drafod ei ymchwiliad i'r paratoadau ar gyfer disodli cyllido'r UE yng Nghymru ar ôl i'r DU ymadael â'r UE. Mae'r ymchwiliad yn canolbwyntio ar y canlynol:

- asesu'r gwaith cynllunio ariannol ar gyfer yr hyn a fydd yn disodli ffrydiau cyllido'r yr Undeb Ewropeaidd yng Nghymru, a'r hyn sy'n cael ei wneud i baratoi ar gyfer gwahanol sefyllfaoedd posibl o ran lefelau cyllid a chyfrifoldeb gweinyddol, ac
- archwilio pa ddulliau ar gyfer gweinyddu'r hyn a fydd yn disodli ffrydiau cyllido'r Undeb Ewropeaidd a allai ddarparu orau i Gymru, ac i ba raddau y gallai'r rhain ail-greu neu fod yn wahanol i'r trefniadau presennol.

Credaf y bydd yn arbennig o bwysig i'r Pwyllgor ddeall mwy am yr opsiynau sy'n cael eu hystyried ar gyfer yr hyn a fydd yn disodli ffrydiau cyllido'r Undeb Ewropeaidd, pa lefelau o gyllid a allai fod ar gael i Gymru, ac i ba raddau y mae Llywodraeth y DU yn bwriadu i'r gweinyddiaethau datganoledig weinyddu ffrydiau cyllido yn y dyfodol.

Gall y Pwyllgor gynnig sawl dyddiad ym mis Mehefin a dechrau mis Gorffennaf, ac mae croeso i'ch swyddogion gysylltu â Chlerc y Pwyllgor i drefnu amser cyfleus. Byddem hefyd yn hapus i drefnu ichi ymddangos drwy gynhadledd fideo neu ddull arall, er hwylustod.

Yn gywir

Simon Thomas

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCyllid@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddFinance@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddFinance
0300 200 6565

Simon Thomas AC

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English